

Cymwysterau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol ar gyfer statws Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn ateb cwestiynau cyffredin ar ofynion llythrennedd a rhifedd y bydd angen i ymgeiswyr eu bodloni fel rhan o'r asesiad ar gyfer statws Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch.

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw gofynion cymwysterau llythrennedd a rhifedd ar gyfer cynorthwyyr addysgu lefel uwch?

Yn ôl Gofyniad 11 y gofynion proffesiynol ar gyfer cynorthwyyr addysgu lefel uwch mae'n ofynnol bod ymgeiswyr wedi cael cymhwyster mewn llythrennedd a rhifedd ar lefel 2 y fframwaith cymwysterau cenedlaethol (FfCC) neu uwch neu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (o fewn y Dystysgrif ehangach a Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru).

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/creditqualificationsframework/?skip=1&lang=cy>

Pam y mae angen i'r cymwysterau gyd-fynd â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol neu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau?

Mae cymwysterau sydd wedi'u hachredu yn unol â'r Ff CC (NQF) neu'r FfCCh(QCF):

- yn seiliedig ar ofynion cenedlaethol y cytunwyd arnynt
- yn cael eu cynnig gan gyrff dyfarnu sy'n cwrdd â'r meini prawf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghyd â'r Awdurdod Cymwysterau a Chwrciwlwm (QCA) a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) (yr awdurdodau rheoleiddio ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon), i sicrhau ansawdd a diogelu buddiannau ymgeiswyr
- yn cael eu monitro gan yr awdurdodau rheoleiddio yn unol â meini prawf a chodau ymarfer er mwyn sicrhau dibynadwyedd, cysondeb a thegwch ar draws yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tebyg.

I gael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau a'r cymwysterau achrededig ewch i:

<http://www.ofqual.gov.uk/qualifications-assessments/89-articles/250-explaining-the-national-qualifications-framework>

Pam y mae angen y cymwysterau hyn arna i?

Ers i'r gofynion gael eu cyflwyno gyntaf yn 2004 mae gofyn i'r ymgeiswyr sy'n dymuno ennill statws Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch gyflwyno tystiolaeth o'u sgiliau llythrennedd a'u sgiliau rhifedd. Mae'r gofyniad hwn ar gyfer statws Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yn gyffredin i Gymru a Lloegr ac mae'n sicrhau cysondeb o fewn y ddwy wlad. Cadarnhaodd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr ynghylch y gofynion diwygiedig ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yr angen i'r gofyniad hwn barhau. Bernir hefyd fod y ffaith bod y Gofyniad yn gofyn am gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol o fewn y meysydd hyn yn rhywbeth sy'n fuddiol i ymgeiswyr – o ran y gallu i'w trosglwyddo a dyrchafiadau posibl.

Pa gymwysterau sy'n cael eu hystyried yn rhai derbyniol?

<i>Y math o gymwysterau</i>	<i>Llythrennedd</i>	<i>Rhifedd</i>
TGAU	- Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) iaith - Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) llên A*- C	Mathemateg A*- C
Sgiliau sylfaenol (ond ar gael yn Lloegr yn awr)	Tystysgrif mewn llythrennedd oedolion Lefel 2	Tystysgrif mewn rhifedd oedolion Lefel 2
- Sgiliau Hanfodol Cymru - Sgiliau Allweddol	- Sgiliau Hanfodol Cymru – Cyfathrebu Lefel 2 - Sgiliau Allweddol - Cyfathrebu Lefel 2	- Sgiliau Hanfodol Cymru – Cymhwyso rhif Lefel 2 - Sgiliau Allweddol – Cymhwyso rhif Lefel 2
Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)	Cymwysterau sgiliau bywyd Lefel 2	

Mae'n bosib y bydd tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn rhai cymwysterau lefel 3 hefyd yn bodloni gofyniad 11. Dyma'r cymwysterau lefel 3 sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol:

<i>Y math o gymhwysterau</i>	<i>Llythrennedd</i>	<i>Rhifedd</i>
TAG Safon Uwch	- Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) iaith - Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) llên - Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) iaith a llên	- Defnyddio mathemateg - Mathemateg - Mathemateg Bellach - Ystadegau
TAG Safon UG	- Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) iaith - Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) llên - Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) iaith a llên	- Defnyddio mathemateg - Mathemateg - Mathemateg Bellach - Ystadegau
Essential Skills Wales (ESW)	Sgiliau Hanfodol Cymru –Cyfathrebu Lefel 3	Sgiliau Hanfodol Cymru – Cymhwyso rhif Lefel 3
Sgiliau allweddol	Sgiliau Allweddol - Cyfathrebu Lefel 3	Sgiliau Allweddol – Cymhwyso rhif Lefel 3

Gadewais yr ysgol cyn i TGAU ddod i fodolaeth. Ydy fy nghymwysterau'n dal yn ddilys?

Mae cymwysterau cenedlaethol cydnabyddedig hŷn, gan gynnwys llwyddo mewn arholiadau Safon Gyffredin TAG (*GCE O-level*) a TAU Gradd 1 (*CSE grade 1*), yn dderbyniol o ran bodloni Gofyniad 11 hefyd.

Cyflwynwyd Tystysgrif Addysg Estynedig (TAE/CEE) ym 1976 ac fe'i cefnogwyd gan gonsortïwm o fyrddau TAG a TAU. Ardystiwyd bod Graddau TAE I, II a III yn gyfwerth ag o leiaf gradd C yn yr arholiad Safon Gyffredin. Gan hynny, mae llwyddo ar raddau I, II a III mewn Saesneg a Mathemateg yn dderbyniol er mwyn bodloni Gofyniad 11

Mae'r cymwysterau a ganlyn yn rhai derbyniol:

<i>Y math o gymhwyster</i>	<i>Llythrennedd</i>	<i>Rhifedd</i>
TAG Llwyddiant mewn TAG Safon Gyffredin	• Saesneg neu Cymraeg (iaith gyntaf) Iaith • Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) Llên	• Mathemateg
TAG	• Saesneg neu Cymraeg (iaith gyntaf) Llên • Saesneg neu Cymraeg (iaith gyntaf) Gradd 1	• Mathemateg Gradd I • Rhifydddeg
TAE	• Saesneg neu Cymraeg (iaith gyntaf) Llên • Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) Graddau I, II a III	• Mathemateg Graddau I, II a III

Noder. Amrywiai teitlau dyfarniadau Mathemateg a Saesneg ar draws cyrff yfarnu ac ar draws amser. Roedd teitlau mathemateg yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) 'mathemateg gymwysedig', 'mathemateg a mecaneg ddamcaniaethol', 'mathemateg bur a thebygolrwydd', 'mathemateg fasnachol', 'mathemateg gyffredinol' 'mathemateg fodern', 'mathemateg dechnegol', 'mathemateg ac ystadegau' ac 'astudiaethau mathemategol'.

Gan hynny, at ddiben Gofyniad 11, mae llwyddiant mewn arholiadau Safon Gyffredin neu radd 1 TAU mewn mathemateg neu rifydddeg neu amrywiaethau o hynny yn dderbyniol. Fodd bynnag, nid yw pynciau Safon Gyffredin/TAU gyda rhai cydrannau mathemategol, e.e. astudiaethau busnes/masnachol neu gyfrifeg yn dderbyniol. Yn yr un modd, gallai fod peth amrywiaeth yn union deitlau dyfarniadau mewn Saesneg.

Sut ydw i'n gwybod a yw fy ngradd Safon Gyffredin gyfwerth â llwyddiant?

Cyn haf 1975, roedd gan bob bwrdd Safon Gyffredin ei system raddio ei hun; fodd bynnag, mae'r tystysgrifau a roddwyd yn nodi'n glir bod yr ymgeisydd wedi llwyddo. Nid oedd y rhan fwyaf o dystysgrifau'n cynnwys y radd a ddyfarnwyd; byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar wahân. O haf 1975 ymlaen, mabwysiadodd yr holl fyrddau'r un system, gyda graddau A i C cyfwerth â'r graddau llwyddo blaenorol. Bydd angen bod ymgeiswyr sydd wedi gwneud arholiadau safon Gyffredin o fis Mehefin 1975 ymlaen wedi ennill gradd C neu'n uwch.

Es i i'r ysgol yn yr Alban. Beth amdana i?

Rheolir cymwysterau yn yr Alban gan Awdurdod Cymwysterau yr Alban (SQA). Mae pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn cydnabod eu cymwysterau cenedlaethol achrededig ei gilydd. Mae'r cymwysterau o'r Alban sy'n bodloni'r Gofyniad fel a ganlyn:

Y math o gymhwyster	Llythrennedd	Rhifedd
SEB	Tan 1985, C neu'n well ar radd gyffredin Tystysgrif Addysg yr Alban. Yn 1986, neu ar ôl hynny, gradd 3 neu'n well ar radd safonol Tystysgrif Addysg yr Alban. Saesneg Gradd Uwch; C neu'n well yn Nhystysgrif astudiaethau chweched flwyddyn yn Saesneg.	Tan 1985, C neu'n well ar radd gyffredin Tystysgrif Addysg yr Alban. Yn 1986, neu ar ôl hynny, gradd 3 neu'n well ar radd safonol Tystysgrif Addysg yr Alban. Mathemateg Gradd Uwch; C neu'n well yn Nhystysgrif astudiaethau chweched flwyddyn ym Mathemateg.

Rwy'n deall bod yn rhaid i fi fodloni Gofyniad 11 cyn y gallaf gael fy asesu ar gyfer swydd Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch. Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r cwrs sy'n seiliedig ar asesu yn unig ond yn addas i'r ymgeiswyr hynny y bernir eu bod yn barod i'w hasesu yn unol â gofynion Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch a'u bod felly'n gallu darparu tystiolaeth o'u gallu i fodloni pob gofyniad, gan gynnwys Gofyniad 11.

A fydd angen i mi gyflwyno fy nhystysgrifau?

Bydd angen i'r asesydd sicrhau bod ymgeiswyr wedi cyflwyno tystiolaeth sy'n bodloni gofynion Gofyniad 11.

Nid yw slipiau na llythyrau sy'n nodi canlyniadau yn dderbyniol fel tystiolaeth gan y gallai'r manylion arnynt gael eu newid. Bydd angen i chi ddangos i'ch asesydd eich tystysgrifau neu gadarnhad gan eich corff dyfarnu o'ch canlyniadau.

Ni allaf ddod o hyd i'm tystysgrifau. Beth ddylwn i ei wneud?

Os na allwch ddod o hyd i'ch tystysgrifau gwreiddiol gallwch wneud cais i'ch corff dyfarnu am dystysgrifau newydd neu lythyr sy'n cadarnhau canlyniadau. Fel arfer bydd cyrff dyfarnu'n codi tâl ar gyfer y gwasanaeth hwn. Gellir dod o hyd i restr o gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cyfredol, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol Cymru ar <http://register.ofqual.gov.uk>. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys cysylltiadau â gwefannau'r cyrff dyfarnu, lle byddwch yn dod o hyd i wybodaeth gyswllt ar gyfer tystysgrifau newydd.

Rhestrir cyrff dyfarnu TGAU presennol yn Atodiad A. Os yw eich tystysgrifau sydd ar goll yn gysylltiedig â safon Gyffredin neu TAU, sylwer y gallai rhai byrddau arholi hŷn fod wedi cael eu hymgorffori yn y cyrff dyfarnu TGAU presennol. Mae Atodiad A yn rhoi'r ddolen ar gyfer gweithdrefn pob bwrdd arholi er mwyn dod o hyd i dystysgrifau newydd, ynghyd â rhestr o hen fyrddau arholi y maent yn dal eu cofnodion.

Gellir cael datganiad canlyniadau gan unrhyw un o'r pum corff dyfarnu TGAU sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A.

Cefais fy addysg y tu allan i'r DU. Ydy fy nghymwysterau'n dderbyniol?

Ydyn, os cewch chi lythyr cymharu oddi wrth NARIC yn y DU.

Mae Canolfan Gwybodaeth Gydabyddiaeth Genedlaethol y Deyrnas Unedig (NARIC) yn darparu gwasanaeth ar gyfer unigolion sy'n ceisio gwybodaeth am gysondeb rhwng cymwysterau academiaidd rhyngwladol a'r rheini yn y DU. Y dyfarniadau tramor sy'n safonau cenedlaethol yn y wlad wreiddiol yw'r unig ddyfarniadau tramor y gall NARIC yn y DU eu hasesu. Mae llythyr cymharu gan NARIC yn y DU yn dystiolaeth dderbyniol ar gyfer 11.

Mae gennyf gymhwyster o'r DU sydd heb ei restru ond sy'n gyfwerth â lefel 2, yn ôl pob sôn. Pam nad yw hwn yn dderbyniol?

Mae cymwysterau sy'n achrededig at y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol am eu bod yn bodloni safonau cenedlaethol llythrennedd a rhifedd yn arwain at ganlyniadau sy'n gadarn ac yn gyson ac yn cynnig cydnabyddiaeth genedlaethol o'u cyflawniad a'u cyfleoedd am gynnydd. Gall llawer o gymwysterau a hyfforddiant eraill gynnwys yr holl ofynion gwybodaeth neu rai ohonynt.

Mae gennyf gymhwyster achrededig sy'n gysylltiedig â llythrennedd (neu rifedd) ond nid yw ar y rhestr. Pam?

Mae yna lawer o gymwysterau sy'n berthnasol i llythrennedd a/neu rifedd. Fodd bynnag, nid yw ffocws yr asesu ar gyfer y cymwysterau hyn ar llythrennedd neu sgiliau rhifedd yr ymgeisydd eithr ar feysydd eraill fel eu gallu i gefnogi dysgu. Gall cymwysterau eraill – er enghraifft, cyfrifeg neu astudiaethau busnes - ofyn i ymgeiswyr ddangos rhai sgiliau llythrennedd neu rifedd, ond nid asesir amrediad llawn y gofynion cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Ar ben hynny, gallai perfformiad gwannach mewn llythrennedd neu rifedd gael ei wrthbwysu gan berfformiad cryfach mewn mannau eraill, felly gallai ymgeisydd nad yw'n bodloni'r gofynion llythrennedd a rhifedd gyflawni'r cymwysterau hyn.

Rwyf wedi cwblhau rhaglen mynediad ar gyfer dechrau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Pam nad yw hon yn dystiolaeth dderbyniol ar gyfer Gofyniad 11?

Mae'r gofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yn gofyn bod gan ymgeiswyr lefel o ddealltwriaeth sy'n gyfwerth â TGAU gradd C neu'n uwch mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Er mwyn ehangu cyfranogiad a chynnig llwybrau i HCA ar gyfer y rheini nad oes ganddynt gymwysterau cenedlaethol yn y pynciau hyn, gall darparwyr, yn ôl eu disgrisiwn, dderbyn ymgeiswyr sydd wedi cwblhau cyrsiau mynediad priodol; sydd wedi cyflawni cymwysterau nad ydynt yn achrededig ond sy'n cael eu hystyried yn gyfwerth â lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC); neu sydd wedi pasio profion cywerthedd a ddyfeisiwyd gan ddarparwyr. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion mynediad eraill hyn ar gyfer HCA yn rhan o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ac felly, nid ydynt yn dderbyniol o ran bodloni Gofyniad 11.

Mae'r safonau cwblhau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig yn sicrhau yn sicrhau bod safon yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gyson ac yn sicr erbyn iddynt gwblhau'r hyfforddiant. Mae'r Safonau hyn yn cynnwys y gofyn i basio'r profion Sgiliau Cenedlaethol mewn Mathemateg, Saesneg a TGCh, sy'n seiliedig ar ymarfer proffesiynol athrawon. Bydd y rhaglen Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn pennu unrhyw feysydd lle y mae angen rhagor o gymorth ar ymgeiswyr i fodloni'r Safonau cwblhau ac yn sicrhau eu bod yn derbyn y gymorth hwnnw.

Atodiad A – Cyrff sy'n dyfarnu TGAU ar hyn o bryd – dolen i'r Corff priodol

Y corff dyfarnu	Cyfeiriad ar y we	Hen fyrddau arholi
Assessment and Qualifications Alliance (AQA)	www.aqa.org.uk/admin/p_records.php	• Associated Examining Board • Northern Examinations and Assessment Board • South Eastern Regional Examinations Board • Southern Examining Board • South West Regional Examinations Board • Associated Lancashire Schools Examinations Board • Joint Matriculation Board • Northern Examinations Association • Northern Regional Examinations Board • North West Regional Examinations Board • The West Yorkshire and Lindsey Regional Examinations Board • Yorkshire and Humberside Examinations Board
Northern Ireland Council for the Curriculum, Examinations and Assessment (NICCEA)	http://www.ccea.org.uk/gcse.htm (dilynwch y ddolen "Replacement certs" o dan 'Popular resources')	
Edexcel	http://www.edexcel.org.uk/Studying/StudyingEditorial.aspx?id=83064&ciid=176823	• University of London Examinations Board • London Regional Examinations Board • Metropolitan and Middlesex Regional Examinations Board • East Anglian Examinations Board
OCR	http://www.ocr.org.uk/index.html	• University of Cambridge Local Examination Syndicate • East Midland Regional Examinations Board

		• Midland Examining Group • Oxford and Cambridge Examinations and Assessment Council • Oxford and Cambridge Schools Examination Board • Southern Regional Examinations Board • Southern Universities' Joint Board for Schools Examinations • The West Midlands Examinations Board • University of Oxford Delegacy of Local Examinations
Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)	http://www.wjec.co.uk/index.php?nav=44	